

# YR AELOD CABINET DROS ADDYSG A'R GYMRAEG

**DYDD** Gwener, 7 Gorffennaf 2023

**YN BRESENNOL: Y Cyngorydd:** G. Davies (Aelod o'r Cabinet)

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**

T. Neumayer-James, Prif Swyddog Llywodraethu Ysgolion

K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democraataidd

Rhith-Gyfarfod - 9.00 - 9.15 yb

**1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL**

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

**2. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD  
12 MAI 2023**

**PENDERFYNWYD** Ilofnodi bod Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod oedd wedi'i gynnal ar 12 Mai 2023 yn gofnod cywir.

**3. PENODI LLYWODRAETHWYR A.LL.**

Bu'r Aelod Cabinet yn ystyried y ceisiadau oedd wedi dod i law am y swyddi Llywodraethwyr Awdurdod Lleol yn y sir. Roedd gwahoddiad i gyflwyno enwebiadau wedi'i roi i'r Cadeirydd, i Bennaeth yr Ysgol ac i'r Aelod(au) Lleol yn achos Ysgolion Cynradd/yr aelod(au) a oedd yn llywodraethwyr yn achos Ysgolion Uwchradd.

Nodwyd bod Llywodraethwyr Awdurdod Lleol yn cael eu penodi am 4 blynedd ac, os oedd y lle'n wag oherwydd bod cyfnod yr unigolyn yn y swydd yn dod i ben, bod nodyn ynghylch hynny yn y manylion am yr unigolyn os oedd am gael ei ailbenodi.

Nodwyd hefyd y gallai'r holl Gynghorwyr Sir, ar ôl cael eu hethol, bennu ar ba gyrff llywodraethu ysgolion y byddent yn eistedd, a byddai eu penderfyniad yn cael blaenoriaeth dros Lywodraethwyr Awdurdod Lleol na chafodd eu hethol. O ganlyniad, gallai Cynghorwyr Sir enwebu i wasanaethu fel Llywodraethwyr Awdurdod Lleol ar ysgol lle nad oedd lle gwag ac os oedd gormod o lywodraethwyr, byddai'r Cyngor yn nodi pa Lywodraethwr Awdurdod Lleol yr oedd yn ofynnol iddo roi'r gorau i'r swydd.

**PENDERFYNWYD**, ar ôl ystyried y ceisiadau oedd wedi dod i law, benodi'r canlynol yn Llywodraethwyr Awdurdod Lleol er mwyn cyflawni'r rhwymedigaethau statudol i lenwi lleoedd gwag ar Gyrrff Llywodraethu:-

Ysgol Gynradd	Penodiadau
Bro Banw (1 lle gwag – 1 enwebiad)	Mrs K. Hughes

Gorslas (2 le gwag - 1 ar hyn o bryd ac un o 2 Medi 2023 - 2 enwebiad)	Mr M. Jenkins Mr C. Davies
Tre Ioan (1 lle gwag – 1 enwebiad)	Miss K. Gardner
Llandeilo (2 le gwag - 1 ar hyn o bryd ac un o 12 Gorffennaf 2023 - 2 enwebiad)	Y Cynghorydd Edward Thomas Mr C. New
Llandybïe (1 lle gwag o 15 Gorffennaf 2023 - 1 enwebiad)	Mrs E. Williams
Y Pwll (1 lle gwag – 1 enwebiad)	Mr. R. Staines
Santes Fair, Llanelli (1 lle gwag – 1 enwebiad)	Mrs C. Cooper
Tycroes (1 lle gwag – 1 enwebiad)	Mr S. Taylor
Y Dderwen (2 le gwag o 25 Medi 2023 – 2 enwebiad)	Mr A. Charles Y Cynghorydd Emlyn Schiavone

<b>Ysgol Uwchradd</b>	<b>Penodiadau</b>
Ysgol Emlyn (3 lle gwag – 2 enwebiad)	Mrs M. Peckham Mr M. Morden
Maes y Gwendraeth (2 le gwag – 2 enwebiad)	Mrs D. Williams Ms M. Maddock

---

**AELOD O'R CABINET**

---

**DYDDIAD**